

SUT GALL DDATBLYGIAD
PERSONOL A PHROFFESIYNOL
EFFEITHIO A DYLANWADU
ANSAWDD Y DDARPARIAETH
BLDYNYYDDOEDD CYNNAR

1102078

EAEE5002/C

Cynnwys

• Efen 2 - Log Adfyfyriol	2
• Efen 3 - Papur Briffio	4
• Efen 4 – Cynllun Datblygiad Personol	6
• Rhestr Cyfeirnod	8

Elfen 2 Log adfyfyriol

Disgrifiad byr o'r gweithgaredd
Roedd y gweithgaredd i blant Blwyddyn 1 a 2. Mae 7/8 plentyn ym mhob grŵp. Y gweithgaredd oedd mynd o amgylch y dosbarth yn gofyn y plant beth ydi ei hoff ffrwyth? Roeddent yn casglu'r data mewn ffordd ysgrifenedig ac yna yn trosglwyddo'r data mewn i HWB i greu pictogram.
Nod/Amcan y gweithgaredd
Nod y gweithgaredd oedd i'r plant gallu casglu data mewn ffordd ysgrifenedig ac annibynnol. Hefyd bod pob un plentyn yn gallu mewngofnodi i gyfrif HWB ei hun yn annibynnol. Y prif nod oedd bod pob un plentyn yn gallu creu pictogram ar HWB yn defnyddio'r data wnaethon gasglu am hoff ffrwyth y plant. Mae'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn nodi gan fod y byd yn mynd yn fwy digidol fod angen i blant dysgu ystod o sgiliau TGCh er mwyn llwyddo (Llywodraeth Cymru, 2016). Trwy wneud y dasg yma mae plant yn deall pwysigrwydd data a llythrennedd gwybodaeth (Llywodraeth Cymru, 2016).
Eich rôl chi
Fy rôl yn y gweithgaredd yma oedd esbonio i'r grwpiau beth oedd y gweithgaredd a pam roeddent yn gwneud y gweithgaredd. Roedd yn rhaid i mi ddangos i'r plant sut oedd mynd ar ei chyfrif HWB gan ddefnyddio'r iPad's ac yna dangos pa raglen oedd eisiau mynd arno ar HWB i wneud pictogram. Roedd hefyd rôl arnaf i gynorthwyo os oedd angen help ar rhai plant gydag unrhyw ran o'r gweithgaredd ac i annog y plant i dreial eto os roeddent yn cael trafferth gydag unrhyw faes. Fy rôl hefyd oedd cefnogi'r plant ac i wneud y gweithgaredd mor hwyl ag y gallaf fel ei fod yn mwynhau'r gweithgaredd.
Agweddau cadarnhaol – pam?
Yr agweddau cadarnhaol o'r gweithgaredd oedd bod y plant wedi mwynhau gwneud y gweithgaredd. Wnaethon fwynhau mynd o amgylch y dosbarth i gasglu'r data a'r ffaith ei fod nhw'n cael defnyddio iPad's i wneud y gweithgaredd. Roeddwn yn gallu dweud ei fod wedi mwynhau gan y wên ar ei hwyneb. Mae'r plant yn mwynhau pob cyfle y cawn i ddefnyddio'r iPad's, mwy pam byddwn yn mynd ar HWB. Gwelais fod y gweithgaredd wedi mynd yn llyfn gan fod yr athrawes wedi esbonio i mi beth oedd y dasg a beth roedd hi eisiau i gyflawni o'r gweithgaredd. Rwy'n gwerthfawrogi pan mae'r athrawes yn mynd dros y gweithgaredd i mi o flaen llaw fel fy mod yn hyderus cyn cyflwyno'r gweithgaredd i'r plant. Rydw i'n hyderus iawn wrth ddefnyddio HWB felly gwelais hyn yn fantais i'r plant gan fy mod yn gwybod beth i wneud ac yn gallu datrys unrhyw broblemau a ddaeth. Gwelais fod y plant wedi gwrandao ar fy nghyfarwyddiadau gan fod pob un ohonynt wedi cyflawni nod y gweithgaredd yn llawn. Esboniais yn glir i bob grŵp y gweithgaredd a dewisais i fynd ar grwpiau i gornel dawel o fewn y dosbarth fel ei bod yn gallu canolbwyntio'n well. Mae gennaf llawer o amynedd. Gwelais hyn yn fantais fawr wrth wneud y dasg yma gan fod TGCh ddim wastad yn rhedeg yn llyfn. Er enghraifft aeth y rhyngrwyd lawr ar rhai o'r iPad's felly roedd angen amynedd ar mi ar blant fel fy mod yn gallu datrys y problem.
Agweddau heriol – pam?
Cafodd rhai plant broblemau wrth fewngofnodi i'w cyfrif HWB. Gan fod 7 neu 8 plentyn ym mhob grŵp doedd dim digon o iPad's i bob un felly roedd yn rhaid i rai rhannu iPad's. Doedd hyn ddim yn hawdd iawn. Roedd gormod o blant yn y grwpiau, byddai 5 mhentyn ym mhob grŵp wedi bod yn well. Bydd hyn yn gwneud y gweithgaredd yn hawsach i esbonio beth i wneud gyda grŵp llai.

Doedd dim digon o amser i orffen y gweithgaredd gyda phob grŵp gan fod y ddwy wers gyntaf yn eithaf byr. Doedd rhai o'r grwpiau heb gyrraedd amcan y gweithgaredd oherwydd diffyg mewngofnodi a diffyg digon o lpad's i bob plentyn. Gwelais fod Blwyddyn 1 yn cael mwy o drafferth. Dydw i ddim yn meddwl fy mod wedi esbonio'r gweithgaredd yn ddigon syml i Flwyddyn 1. Roedd angen i mi dangos iddynt sut oedd mynd ar HWB a mewngofnodi mewn mwy o ddyfnder. Agwedd heriol arall welais oedd bod y plant yn newid meddwl am ei hoff ffrwyth i wahanol blant felly doedd y data ddim yn gyson ac roedd y plant yn mynd yn ddryslyd.
Pa wybodaeth arddangoswyd? Dangoswyd gwybodaeth am ddatblygiad plant. Gan fy mod wedi astudio modiwl am ddatblygiad plant, roeddwn yn hyderus yn gwybod am sut roedd y plant yn meddwl. Dangoswyd bach gwybodaeth am y Fframwaith Cymhwysedd Digidol a beth ddylai'r plant gallu fod yn cyflawni o'r gweithgaredd.
Pa sgiliau arddangoswyd? Dangoswyd sgiliau cyfathrebu effeithiol gyda'r plant. Defnyddiais iaith addas a briodol i oedran y plant a hyn mewn ffordd glir a oedd yn hawdd i ddeall. Dangoswyd fy mod yn ymgysylltu gyda'r athrawes am unrhyw broblem a chodwyd. Darparais adborth i'r athrawes o sut aeth y gweithgaredd, os cyrhaeddwn y plant y nod a beth oedd angen gwella. Dangoswyd sgiliau TGCh effeithiol a hawdd i'r plant. Dangoswyd sgiliau gofal uchel. Roeddwn yn mynd lawr i lefel y plant wrth siarad gyda nhw ac yn parchu lefel y plant.
Pa werthoedd arddangoswyd? Dangoswyd fy mod yn gwrandao ar lais y plentyn. Os oedd unrhyw broblem, roeddwn yn delio gyda'r broblem yn syth. Roeddwn i a'r plant yn gwrandao ar farn ein gilydd am fwyta ffrwythau ac yn parchu fod gan bob plentyn yr hawl i wneud penderfyniadau ei hun a bod pawb gyda hoff ffrwyth gwahanol. Roeddwn yn defnyddio dull gofalgarn gan fod rhai plant ddim yn hyderus iawn wrth ddefnyddio lpad neu heb ddefnyddio lpad o gwbl o'r blaen.
Beth allai cael ei wneud yn wahanol? Pam? Yn wahanol gallwn gael dwy wers yn lle un. Gall un wers fod yn casglu'r data a gwers arall yn defnyddio'r data i wneud pictogram. Mi fydd hwn yn rhoi'r cyfle i bob grŵp i orffen y gweithgaredd. Angen symleiddio'r gweithgaredd i Flwyddyn 1 fel ei bod yn deall. Angen mwy o ymarfer i fewngofnodi i'r cyfrif HWB hefyd. Oherwydd bod y plant yn newid ei meddwl am ba ffrwyth yw ei hoff un gallwn gasglu'r data fel dosbarth gyda'r athrawes cyn gwneud y pictogram. Ond un anfantais o hyn ydy mi fydd y plant ddim yn cael y cyfle i fynd o amgylch i gasglu'r data yn annibynnol. Mi fydd grwpiau llai yn well, tua 5 ym mhob grŵp fel fy mod yn cael y cyfle i esbonio'r dasg yn well ac yn cael mwy o siawns i helpu unigolion fwy os fod angen. Bydd y grŵp yn wel i reoli hefyd. Gallai dysgu fwy am fframwaith TGCh y Cyfnod Sylfaen fel fy mod yn gwybod ble dylai'r plant fod arni o ran gallu gwneud pethau syml yn defnyddio TGCh.

Adfyfyrio

I fyfrio fod yn bwrpasol mae angen iddo fod yn ystyrlon (Brock, 2010).

Mae dau ddull proses o adfyfyrio yn ôl Schon (2007 dyfynnwyd yn Hallet, 2013:29) sef:

- Myfyrdod wrth ymarfer
- Myfyrio ar arfer

Gall ymarferwyr Blynnyddoedd Cynnar myfyrio yn eu hymarfer trwy feddwl am weithgareddau maent yn ymgymryd pan maent yn ei gwneud. Mae ymarferwyr Blynnyddoedd Cynnar sydd yn myfyrio ar arfer yn mynd a'r broses fyfyrion i lefel uwch, trwy gysylltu arfer i ddamcaniaethau, datblygu damcaniaethau sydd yn cael eu defnyddio a ffyrdd newydd o weithio (Schon, 2007 dyfynnwyd yn Hallet, 2013:29).

Arfer adfyfyriol yn ôl Chwarae Cymru (2018) ydi dull strwythuredig sydd yn dilyn y camau yma:

1. Adnabod y problem
2. Adfyfyrio ar neu ddadansoddi'r problem
3. Tynnu casgliadau a chynllunio i'r dyfodol.

Cred Potter a Hodgson (2007 dyfynnwyd yn Brock, 2015:25) ei fod yn hanfodol fod pob un o'r staff sydd yn gweithio gyda phlant ifanc yn gallu adfyfyrio'n feirniadol ar beth maent yn gwneud a pam y byddant yn ei wneud.

Pwysigrwydd Arfer Adfyfyriol

Pwrpas Adfyfyrio

- Gall arfer pob dydd gwella dysgu/gweithio ei hunain wrth weithio gyda phlant ac i ddarparu darpariaeth o ansawdd i blant ifanc (Brock, 2015).
- Adfyfyrio ac arfer adfyfyriol ydi gwerthoedd craidd ymarferwyr proffesiynol, sydd gyda rôl allweddol mewn hyfforddiant proffesiynol (Brock, 2015)

Trwy adfyfyrio gall sicrhau canlyniadau gwell i blant (Pacey, 2016).

Gall adfyfyrio ar sut y gallwn ni ddarganfod profiadau plant ddibynnu ar sut rydym yn gweld y plentyn a sut mae'r plentyn yna yn cyfranogi yn y lleoliad Blynnyddoedd Cynnar (Paige-Smith a Craft, 2007).

Trwy ymgymryd ag ymarfer adfyfyriol, rydym yn dod yn ymchwilwyr o'n byd gwaith mewn ffordd effeithiol, yr un ffordd ac mae plant yn ymchwilio ei byd nhw (Paige-Smith a Craft, 2007).

Effaith ar arfer

- Arfer adfyfyriol ydy taith sydd byth yn diweddu sydd yn cynnwys rhinweddau a phriodoleddau personol a phroffesiynol sydd yn cyfuno pan mae'r unigolyn yn cymryd perchnogaeth o brosesau a gweithrediadau meddwl ac yn datblygu cyfrifoldeb am ganlyniadau plant (Wenger 1998 dyfynnwyd yn Appleby, 2010:9).
- Dywed Tarrant (2013) dylai adfyfyrio cael effaith. Dylai'r effaith yma arwain at y cynnydd yn eich dealltwriaeth, arbenigedd neu arfer.
- Pwrpas arfer myfyriol ydi i ddarparu profiadau o ansawdd uwch i blant ai teuluoedd. Pan mae ymarferwyr yn cymryd rhan mewn adfyfyrio gallent wella darpariaeth ac arfer trwy wneud penderfyniadau gwybodus am os fod ei Gwaith gyda phlant yn effeithiol neu ddim (Brookfield 1995 dyfynnwyd yn Hallet,, 2013:25).

Mae adfyfyrio ar arfer yn helpu gyda:

- Gwella eich sgiliau tray n gwella eich hunan hyder a chymhelliant
- Eich helpu i ganolbwyntio a chymryd perchnogaeth o'ch arfer
- Adnabod anghenion datblygiad proffesiynol
- Cefnogi chi i osod targedau (Pacey, 2016).

Buddion

Un budd o adfyfyrio ydi ei effaith ar broffesiynoldeb (Tarrant, 2013).

Buddion o adfyfyrio yn ôl Pacey (2016) ydy:

- Anghenion unigol y plant yn cael ei chwrrdd
- Hunan-barch yn cynyddu
- Amgylchedd rhyngweithiol addas sydd yn galluogi ac yn cynnwys adnoddau addas.

Trwy hwyluso a hyrwyddo arfer adfyfyriol, bydd arferion sydd yn seiliedig ar berthynas yn dod i'r amlwg (Ruch, 2004).

Mae amser i adfyfyrio ar ôl y gweithgaredd yn rhoi cyfleoedd i blant i ystyried cryfderau, gwendidau, ardaloedd i wella a pam y gwnaeth rhywbeth gweithio neu ddim (Blandford a Knowles, 2009).

Heriau

Dydy maethu arfer adfyfyriol ddim yn hawdd. Un her ymarferol ydy chwilio'r cydbwysedd iawn rhwng disgwyliadau o ddysgu trwy adfyfyrio a'r amser a phrofiad sydd yn rhan ohono (Edwards, 2000 dyfynnwyd yn Paige-Smith a Craft, 2007:21).

Rhai heriau o adfyfyrio yn ôl Chwarae Cymru (2018) ydi:

- Amser- mae meddwl yn ddwfn am arfer ac yn dod i gasgliad am pam fod pethau wedi digwydd yn cymryd amser, fodd bynnag mae cymryd amser i adfyfyrio yn hanfodol er mwyn gwella ein harfer.
- Ofn- mae arfer adfyfyriol yn golygu fod rhaid i ni edrych yn ddwfn o fewn ein hunain a gofyn cwestiynau caled.
- Cefnogaeth- mae adfyfyrio heb y cyfle o newid a datblygu yn gallu arwain at deimlo yn anobeithiol. Mae angen fod yn agored gyda chydweithwyr er mwyn gallu cymharu ein harfer ac i dderbyn cefnogaeth ac anogaeth.

Arfer adfyfyriol effeithiol

- Mae cynnal arfer Blynnyddoedd Cynnar effeithiol yn cynnwys adfyfyrio ar, datblygu a newid arfer ein hunain (Paige-Smith a Craft, 2007).
- Dylai arfer myfyriol annog ymarferwyr i deimlo ei gwaith, dull sydd yn mynd tu hwnt arsylwi ond sydd yn herio gwybodaeth ac arfer, sydd yn symud i le o ddealltwriaeth (Leeson 2010 dyfynnwyd yn Hallet, 2013:27).

Mae ansawdd addysg a gofal Blynnyddoedd Cynnar yn dibynnu a'r sgiliau, cymhelliant a gallu'r staff (Unicef, 2008 dyfynnwyd yn Bleach, 2014:196).

Trwy adfyfyrio'n weithredol a gwerthuso rôl eich hunain fel ymarferydd Blynnyddoedd Cynnar, gallwch elwa gwybodaeth newydd am eich hunain ac am eich dysgu (Bleach, 2014).

John Dewey

Roedd Dewey yn credu fod myfyrion ôl ar yr hyn a wnaethom yn bwysig er mwyn echdynnu ystyr yr hyn a ddigwyddodd (Brock, 2015).

Credodd Dewey ein bod yn dysgu o adfyfyrio ar brofiadau, ddim o brofiad (Dewey, 1933 dyfynnwyd yn Brock, 2015:10). Dadlodd Dewey fod adfyfyrio trwy feddwl, a threfnu'r meddyliau sydd yn deillio trwy adfyfyrio yn galluogi dealltwriaeth ddeallusol ddyfnach (Brock, 2015).

Mae meddwl Dewey (1993 dyfynnwyd yn Brock, 2015:10) dal yn gyfoes heddiw. Dadlodd os nag ydych yn gweithredu fel ymarferwr adfyfyriol, rydych yn mentro seilio ymarfer ar ragfarn ar feddwl anwybodus neu hen ffasiwn.

Elfen 4 Cynllun Datblygu Personol

Agwedd ar gyfer datblygiad pellach	Pam?	Sut?	Pwy/Ble?	Pryd?
1. Gwybodaeth - Cwrs Gwaith Chwarae.	Mae angen i mi gael cymhwyster mewn gwaith chwarae gan fy mod yn arweinydd mewn Clwb ar ôl ysgol ac mae'n hanfodol fy mod yn cael y cymhwyster yma erbyn 2021.	Mynychi gwrs Gwaith Chwarae yng Ngholeg Ceredigion ar ôl i mi raddio o'r cwrs yma. Mae'r cwrs yn golygu gwneud gwaith cwrs ac yna mi fydd rhywun yn dod allan i fy arsylwi tra fy mod yn gweithio yn y Clwb. Gallu gorffen y cwrs o fewn 6 mis i flwyddyn.	Fi a prif arweinydd y clwb. Newydd dderbyn gwybodaeth fod y coleg lleol yn cynnig y cwrs. Gallaf wneud y gwaith yn amser fy hunan ac mi fydd rhywun yn dod allan i arsylwi yn ystod y Clwb.	Mewn blwyddyn ar ôl graddio o'r cwrs Blynyddoedd Cynnar.
2. Gwybodaeth - Cwrs am 'Dyslecsia'	Rydw i eisiau dysgu mwy am ddyslecsia gan fy mod yn gweithio fel cynorthwydd yn y Cyfnod Sylfaen ond dydw i ddim yn gwybod llawer am ddyslecsia a sut rydym yn gwybod bod plentyn gyda dyslecsia. Teimlaf os byddai yn cael gwybodaeth am hyn mi fydd o fudd i helpu'r plant.	Mynychu cwrs dyslecsia, angen i mi wneud ymchwil i weld os oes cwrs i gael yn lleol. Gallaf ofyn i'r Prif Athro os ydi yn ymwybodol o unrhyw gyrsiau dyslecsia sydd yn cael ei chynnal a fy mod â diddordeb mawr i wneud y cwrs. Hefyd falle bod gan y Brifysgol gwybodaeth am gyrsiau dyslecsia.	Gobeithio gallaf wneud y cwrs yn lleol neu trwy'r Brifysgol. Os fod llawer o'r staff eraill yn dangos diddordeb, falle gall y prif athro meddwl am gael cwpwl ohonynt hwy fel staff i fynychu'r cwrs.	O fewn flwyddyn nesaf
3. Sgiliau - Gwellu sgiliau TGCh a Cymhwysedd Digidol.	Rydw i'n eithaf hyderus gyda sgiliau TGCh a dangos sgiliau TGCh i'r plant. Rydw i'n helpu gyda gwefan yr ysgol ond rwy'n teimlo gall fy sgiliau o ddysgu TGCh i blant gwellu. Rydw i hefyd eisiau gwybod mwy am y Fframwaith	Gallaf wneud hyn trwy ofyn i'r athrawes TGCh yn yr ysgol. Gall yr athrawes mynd dros y Fframwaith gyda mi. Gallai mynychu unrhyw gyrsiau TGCh sydd yn cael ei chynnal.	Mi fydd dysgu am y Fframwaith Chymhwysedd digidol o fud di pob aelod o'r staff yn yr ysgol gan ei fod mor bwysig yn y cwricwlwm. Gall dysgu am hyn cael ei gwneud o fewn yr ysgol mewn cyfarfodydd staff neu ddiwrnodau hyfforddiant. Mi fydd	Mor gynted ag posib gan fod y Fframwaith Chymhwysedd Digidol yn cael ei gwthio fwy yn y cwricwlwm.

	Chymhwysedd Digidol fel fy mod yn ymwybodol o ba sgiliau dylai plant fod yn gallu gwneud.		fy sgiliau TGCh yn datblygu pob dydd trwy ddysgu am apiau newydd a dysgu sut i gyflwyno'r apiau yma i'r plant.	
4. Sgiliau - Sgiliau ymchwilio	Rydw i eisiau gwella fy sgiliau ymchwilio gan fy mod eisiau agor meithrinfa fy hun yn y dyfodol ond cyn gwneud hyn mi fydd angen i mi ymchwilio tipyn am sut i wneud hyn ac mi fydd angen cael gwybodaeth ar ble bydd y lle gorau i agor meithrinfa, pam a beth fyddaf yn gallu darparu wrth wneud hyn.	Mae fy sgiliau ymchwilio yn gwella pob dydd trwy wneud y cwrs yma. Gan fy mod yn ymchwilio am wybodaeth i bob elfen o'r modylau.	Rydw i'n gwneud hyn trwy fynychu'r darlithoedd pob wythnos ac yn gwneud hyn bron pob dydd wrth ymchwilio am wybodaeth i'r aseiniadau. Gallaf hefyd gofyn i'r swyddog gyrfaoedd am wybodaeth am ble i ddechrau ymchwilio.	Trwy gydol fy nghwrs ac yn y blynyddoedd nesaf.
5. Gwerthoedd Gwirfoddoli mewn meithrinfa	Mi fyddaf yn hoffi gwirfoddoli mewn meithrinfa er mwyn i mi gael mwy o brofiad yn gweithio gyda phlant o 6 mis oed i 3 oed a datblygu fy ngwybodaeth. Mi fydd hyn yn helpu gyda fy ngwaith coleg a fy helpu yn y dyfodol gan fy mod eisiau agor meithrinfa fy hun.	Cysylltu gyda'r feithrinfa leol i weld os fy mod yn gallu mynd i wirfoddoli er mwyn cael profiad ac i wella fy sgiliau cyfathrebu/ cynllunio gyda phlant ifanc.	Cysylltu gyda'r feithrinfa leol i weld os fod modd i mi do di wirfoddoli. Os dydi'r feithrinfa ddim ar gael gallai cysylltu gyda gwarchodwr plant neu fynychu sesiynau chwarae.	Yn ystod gwyliau ysgol pan fyddai ddim yn gweithio yn yr ysgol e.e. gwyliau haf.
6. Gwerthoedd - Ymestyn galluoedd yr holl ddysgwyr	Rydw i eisiau gwella fy ngwybodaeth o sut i ymestyn galluoedd plant fel ei fod nhw a fi yn datblygu ei sgiliau i'w llawn botensial. Trwy wneud hyn byddant yn teimlo yn fwy hyderus wrth symud ymlaen i'r dyfodol.	Trwy gael gwybodaeth am y targedau y dylai plant cyrraedd a gwybodaeth am sut i herio ac ymestyn galluoedd plant yn fy ngofal.	Gofyn i'r athrawes dosbarth am beth allai gwneud a sut i wneud yn siŵr bod pob un plentyn yn ymestyn ei galluoedd i'w llawn botensial. Mynd i arsylwi dosbarthiadau eraill er mwyn gweld sut mae athrawon eraill yn gwneud hyn.	O fewn y flwyddyn nesaf ac yn parhau tan fy mod yn teimlo'n fwy hyderus.

Rhestr Cyfeirnodï Cyflwyniad

Brock, A. (2015) *The Early Years Reflective Practice Handbook*. Abingdon: Routledge.

Finlay, L. (2008) 'Reflecting on Reflective Practice', PBPL, 52, Ionawr. [Ar-lein]. Ar gael yn:

[https://www.open.ac.uk/opencetl/sites/www.open.ac.uk/opencetl/files/files/ecms/web-content/Finlay-\(2008\)-Reflecting-on-reflective-practice-PBPL-paper-52.pdf](https://www.open.ac.uk/opencetl/sites/www.open.ac.uk/opencetl/files/files/ecms/web-content/Finlay-(2008)-Reflecting-on-reflective-practice-PBPL-paper-52.pdf)

[Darllenwyd: 8 Mehefin 2018].

Forrest, M. E. S. (2008) 'On becoming a critically reflective practitioner', *Health Information and Libraries Journal*, 25, Rhif 3, Medi, tt. 29-232. [Ar-lein]. Ar gael yn:

<https://onlinelibrary.wiley.com/doi/full/10.1111/j.1471-1842.2008.00787.x>

[Darllenwyd: 8 Mehefin 2018].

Hayes, C., Daly, J., Duncan, M., Gill, R. a Whitehouse, A. (2014) *Developing as a Reflective Early Years Professional: A Thematic Approach*. Northwich: Critical Publishing. [e-lyfr]. Ar gael yn:

https://books.google.co.uk/books?id=2iAnDAAAQBAJ&pg=PA9&lpg=PA9&dq=Kolb+in+early+years&source=bl&ots=XuB1pHy8Dw&sig=j_o_tMfEYzm7xHmhdsLgh30HmdM&hl=en&sa=X&ved=0ahUKEwjZkqrRkcnbAhWFD8AKHXGjDqk4HhDoAQg-MAM#v=onepage&q=Kolb%20in%20early%20years&f=false [Darllenwyd: 9 Mehefin 2018].

Heery, E. a Noon, M. (2008) 'A Dictionary of Human Resource Management'.

<http://www.oxfordreference.com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/view/10.1093/acref/9780199298761.001.0001/acref-9780199298761-e-681> [Darllenwyd: 9 Mehefin 2018].

Lia, P. (2016) 'Using Gibbs' Reflective Cycle' <https://www.kcl.ac.uk/campuslife/services/disability/onlineresources/StudyGuides/USING-GIBBS-REFLECTIVE-CYCLE-IN-COURSEWORK-DEC-2016-P-LIA.pdf>

[Darllenwyd: 7 Mehefin 2018].

Prifysgol Bradford. (Dim Dyddiad) 'Reflection Models and Frameworks'

[https://www.bradford.ac.uk/wimba-files/skill-](https://www.bradford.ac.uk/wimba-files/skill-space/Reflective_Writing_HTML/page_04.htm)

[space/Reflective_Writing_HTML/page_04.htm](https://www.bradford.ac.uk/wimba-files/skill-space/Reflective_Writing_HTML/page_04.htm) [Darllenwyd: 8 Mehefin 2018].

Prifysgol Kent. (2012) 'Reflective learning' <https://www.kent.ac.uk/learning/PDP-and-employability/pdp/reflective.html> [Darllenwyd: 9 Mehefin 2018].

Prifysgol Norwich. (2017) 'The 4 Components of the Experiential Learning Cycle' <https://online.norwich.edu/academic-programs/masters/leadership/resources/articles/the-4-components-of-the-experiential-learning-cycle> [Darllenwyd: 8 Mehefin 2018].

Tarrant, P. (2013) *Reflective Practice and Professional Development*. London: SAGE Publications Ltd.

Cyfeirnodï Elfennau 2 a 3

Appleby, K. (2010) 'Reflective Thinking; Reflective Practice', yn M. Reed a N. Canning (goln) *Reflective Practice in the Early Years*. London: SAGE Publications Ltd.

Blandford, S. a Knowles, C. (2009) *Developing Professional Practice 0-7*. Essex: Pearson Education Limited.

Bleach, J. (2014) 'Developing professionalism through reflective practice and ongoing professional development', *European Early Childhood Education Research Journal*, Cyfrol 22, Rhif 2, Ebrill, tt. 185-197. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/1350293X.2014.883719?scroll=top&needAccess=true> [Darllenwyd: 20 Mehefin 2018].

Brock, A. (2015) *The Early Years Reflective Practice Handbook*. Abingdon: Routledge.

Chwarae Cymru. (2018) 'Reflective Practice' https://issuu.com/playwales/docs/reflective_practice?e=5305098/62475902 [Darllenwyd: 20 Mehefin 2018].

Hallet, E. (2013) *The Reflective Early Years Practitioner*. London: SAGE Publications Ltd.

Llywodraeth Cymru. (2016) 'Fframwaith Cymhwysedd Digidol – Canllawiau' <http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/160831-dcf-guidance-cy-v2.pdf> [Darllenwyd: 15 Mehefin 2018].

Paige-Smith, A. a Craft, A. (2007) *Developing Reflective Practice in the Early Years*. Berkshire: Open University Press.

Professional Association for Childcare and Early Years. (2016) 'Developing Self Reflective Practice' [https://www.pacey.org.uk/Pacey/media/Website-files/PACEY%20member%20practice%20guides%20\(PDFs\)/PG04-self-reflective-practice.pdf](https://www.pacey.org.uk/Pacey/media/Website-files/PACEY%20member%20practice%20guides%20(PDFs)/PG04-self-reflective-practice.pdf) [Darllenwyd: Mehefin 15 2018].

Ruch, G. (2005) 'Relationship-based practice and reflective practice: holistic approaches to contemporary child care social work', *Child and Family Social Work*, Cyfrol 10, Rhif 2, Mai, tt.111-123. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://web-a-ebSCOhost-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ehost/pdfviewer/pdfviewer?vid=6&sid=029b128b-e958-4191-a683-80c124153782%40sessionmgr4010> [Darllenwyd: 19 Mehefin 2018].

Tarrant, P. (2013) *Reflective Practice and Professional Development*. London: SAGE Publications Ltd

